***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 412 (Cy. 101)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chyhoeddi Gwybodaeth) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *30 Mawrth 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *5 Mai 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 50(3)(a) a (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**) ac adran 22(6) a (7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**2**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddi yn unol ag adran 174(4) a (5)(f) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**3**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chyhoeddi Gwybodaeth) (Cymru) 2022 a deuant i rym ar 5Mai 2022.

### Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972

**2.** Yn adran 100G o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**4**) (gwybodaeth ychwanegol a gyhoeddir gan brif gynghorau), ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

> "(5) But, in relation to a principal council in Wales, the information open to inspection under subsection (4) must not include a member's address included in the register maintained under subsection (1)."

(**1**) 2021 dsc 1.
(**2**) 2000 p. 22; diwygiwyd adran 22(6) gan baragraff 28(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20).
(**3**) Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.
(**4**) 1972 p. 70. Mewnosodwyd adran 100G gan adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985 (p. 43).

**Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001**

**3.** Yn rheoliad 12 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001(**5**) (gwybodaeth ychwanegol a gyhoeddir gan awdurdodau lleol), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

> "(4) Ond, ni chaiff yr wybodaeth sy'n agored i'w harchwilio o dan baragraff (3) gynnwys cyfeiriad aelod sydd wedi ei gynnwys yn y gofrestr a gedwir o dan baragraff (1)."

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

30 Mawrth 2022

(**5**) O.S. 2001/2290 (Cy. 178), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001").

Mae adran 100G(1) o Ddeddf 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor (yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyd-fyrddau neu gyd-bwyllgorau sy'n dod o fewn adran 100J(2) o Ddeddf 1972 ac sy'n cyflawni swyddogaethau dau neu ragor o brif gynghorau yng Nghymru) i gadw cofrestr sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, enw a chyfeiriad pob aelod o'r cyngor, gan gynnwys aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau. Mae adran 100G(4) o Ddeddf 1972 yn ei gwneud yn ofynnol bod y gofrestr honno yn agored i'r cyhoedd edrych arni yn swyddfeydd y cyngor.

Mae rheoliad 12(1) o Reoliadau 2001 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth) i gadw cofrestr sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, enw a chyfeiriad pob aelod o'r weithrediaeth, a phob aelod o bob pwyllgor i weithrediaeth yr awdurdod hwnnw. Mae rheoliad 12(3) yn ei gwneud yn ofynnol bod y gofrestr honno yn agored i'r cyhoedd edrych arni ym mhrif swyddfa'r awdurdod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf 1972 a Rheoliadau 2001 i ddarparu na chaiff cyfeiriadau aelodau a gynhwysir yn y cofrestrau fod yn agored i'r cyhoedd edrych arnynt yn swyddfeydd prif gynghorau neu ym mhrif swyddfeydd awdurdodau lleol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddwyd ar www.llyw.cymru .